



Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Crynodeb o'r canfyddiadau yn ein **hadroddiadau thematig** **cenedlaethol** ar gyfer 2014



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau arbenigol annibynnol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ Cymraeg i oedolion;
- ▲ dysgu yn y gwaith; a
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.

Rhagair

Rwy'n gobeithio y byddwch yn gweld y crynodeb hwn, a'r set lawn o adroddiadau sy'n sail iddo, yn addysgiadol a pherthnasol i'ch gwaith eich hun os ydych chi'n rhan o'r system addysg yng Nghymru. Mae'n cynrychioli casgliad o dystiolaeth ar safonau ac yn nodi argymhellion penodol ar gyfer sut i wella. Dylai fod ysgolion a darparwyr eisiau gwybod beth mae Estyn yn disgwyl ei ganfod ar arolygiadau: mae'r casgliad hwn yn crynhoi'r disgwyliadau hynny mewn perthynas â'r agweddau yr ymdrinnir â nhw.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn 2014 yn ymdrin ag ystod o agweddau pwysig ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Maent yn adrodd ar safonau a darpariaeth ar draws yr holl sectorau addysg o arfarnu cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith i adolygu dealltwriaeth disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Rydym wedi adrodd ar ystod o feysydd hefyd, mewn ysgolion ac mewn addysg a hyfforddiant ôl-16, sy'n amrywio o rwystrau rhag prentisiaeth mewn darpariaeth dysgu yn y gwaith i gymryd camau yn erbyn bwlio mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae Estyn yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ffurfio'r rhaglen o adroddiadau thematig y gofynnir amdani yn y llythyr cylch gwaith blynyddol i Estyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r rhaglen hon yn ystyried blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru, ac eleni, roedd yn cynnwys adroddiadau interim am safonau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â lleihau effaith amddifadedd ar welliant addysgol.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn 2014 yn mynd i'r afael â materion sy'n hollbwysig i lunwyr polisi. Bwriad ein hadroddiadau hefyd yw cyfrannu at y syniadau a'r trafod ehangach am ddatblygu polisi mewn meysydd fel yr adolygiad o asesu a'r cwricwlwm. Mae'r rhaglen nesaf o adroddiadau thematig ar gyfer 2015 yn argoeli i fod yr un mor addysgiadol a dylanwadol gan fod adolygiadau ar y gweill mewn perthynas â thestunau mor amrywiol â rôl yr athro ymgynghorol 10% mewn lleoliadau nas cynhelir, y celfyddydau creadigol mewn ysgolion cynradd a chymorth rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, yn ogystal â'r adroddiadau nesaf yn ein cyfres ar yr hyn y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn ei wneud i wella presenoldeb.

Rydym yn gobeithio bod ein hadroddiadau thematig yn cael eu defnyddio'n helaeth gan ddarparwyr i helpu i wella eu harfer er mwyn gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Mae'r crynodeb hwn o'r holl adroddiadau thematig a gyhoeddwyd hyd yn hyn eleni yn dod â dadansoddiadau manwl ac argymhellion o bob adroddiad at ei gilydd ar gyfer cyfeirio atynt yn hawdd. Mae'r adroddiadau llawn, gan gynnwys astudiaethau achos, ar gael ar ein gwefan, sef:

<http://www.estyn.gov.uk/cymraeg/adroddiadau-thematig/adroddiadau-diweddar/>.



Ann Keane

Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar gyfer disgyblion 14-16 oed – Mai 2014	1
Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 – Mehefin 2014	4
ADCDF – Cynnydd mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang – Mehefin 2014	7
Gweithredu ar fwlio – Mehefin 2014	11
TGCh yng nghyfnod allweddol 3 – Gorffennaf 2014	15
Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – Medi 2014	19
Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd – Hydref 2014	23
Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: adroddiad interim	26
Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog	30
Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith	34
Rhwystrau rhag prentisiaeth	38

Gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar gyfer disgyblion 14-16 oed – Mai 2014

Prif ganfyddiadau

Deilliannau

- 1 Mae deilliannau disgyblion wedi gwella yn gyffredinol ers cyflwyno Llwybrau Dysgu 14-19, sydd wedi arwain at ddewisiadau ehangach o ran pynciau a mwy o gymorth dysgu yng nghyfnod allweddol 4.
- 2 Y disgyblion sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf rhag dysgu sydd wedi elwa fwyaf ar ddatblygiadau polisi Llwybrau Dysgu 14-19. Maent yn ymddiddori yn fwy ac mae eu cyfraddau presenoldeb wedi gwella o ganlyniad. Mae'r niferoedd sy'n parhau mewn addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed wedi cynyddu ac mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, yn enwedig mewn ysgolion lle mae lefelau uwch o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae nifer y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sydd wedi eu heithrio o ysgolion uwchradd wedi gostwng yn sylweddol er 2009.
- 3 Er hynny, nid yw tua hanner y disgyblion yn ennill cymhwyster TGAU da (gradd A*-C) neu gyfwerth o hyd mewn Saesneg / Cymraeg mamiaith neu mewn mathemateg. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn arafach ar drothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg nag ar drothwy lefel 2. Nid yw cyfran y bobl ifanc nad ydynt yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn 19 oed wedi gostwng yn ddiweddar.

Darpariaeth

- 4 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae'r rhan fwyaf o hyfforddi dysgu a ddarperir gan anogwyr dysgu dynodedig ar gyfer disgyblion targedig neu gan staff cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn effeithiol ar y cyfan ac mae'n helpu disgyblion i wella eu presenoldeb, eu hymddygiad a'u perfformiad. Mae effaith hyfforddi dysgu ar gyfer disgyblion eraill yn fwy amrywiol.
- 5 Darpariaeth cymorth personol yw'r agwedd gryfaf ar gymorth i ddysgwyr. Mae gan lawer o ysgolion yr arolwg systemau effeithiol i gyflwyno cymorth personol ac mae staff yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill i helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau yn sgil amgylchiadau cartref neu yn sgil problemau corfforol ac iechyd meddwl. Mae gan lawer o ysgolion systemau olrhain i fonitro cynnydd disgyblion. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio systemau olrhain yn dda i nodi'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Nid yw lleiafrif o ysgolion nad oes ganddynt systemau olrhain effeithiol yn targedu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ac ymyriadau yn ddigon da.
- 6 Darpariaeth cyngor ac arweiniad ar yrfaedd yw'r nodwedd wannaf ar gymorth i ddysgwyr. Nid yw cyngor ac arweiniad ar yrfaedd yn dechrau'n ddigon cynnar nac yn rhoi digon o ystyriaeth i anghenion a photensial disgyblion unigol wrth eu helpu i gynllunio eu llwybrau dysgu yn y dyfodol. Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n cynnig y cyfle i bob disgybl drafod eu dyheadau a'u cynlluniau gyrfa wrth iddynt ddewis eu cyrsiau cyfnod allweddol 4 ym Mlwyddyn 9 neu wrth gynllunio eu camau nesaf ym Mlwyddyn 11.

- 7 Mewn mwyafrif o ysgolion, nid yw'r wybodaeth am gyrsiau, cyfleoedd gyrfa a llwybrau dilyniant a roddir i ddisgyblion yn gyfoes. O ganlyniad i hyn a thueddiad tuag at gadw disgyblion yn y chweched dosbarth lle maent yn bodoli, ni roddir gwybodaeth gywir na diduedd i ddisgyblion bob amser wrth iddynt ddewis eu hopsiynau. Darperir y rhan fwyaf o gyngor ac arweiniad ar yrfaeodd i ddisgyblion a rhieni mewn digwyddiadau opsiynau, sy'n darparu gwybodaeth generig, ond nid ydynt yn cynnwys sgysiau penodol am unigolion.
- 8 Nid yw ysgolion wedi rhoi ystyriaeth ddigon gofalus i'r modd y dylent ddisodli'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru yn y gorffennol, gan gynnwys defnyddio Gyrfa Cymru Ar-lein a ffynonellau gwybodaeth eraill am addysg bellach ac addysg uwch, hyfforddiant, prentisiaethau a gyrfaeodd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 9 Lleiafrif o ysgolion yn unig sy'n defnyddio dull strategol o gydlynu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Mae'r ysgolion hyn yn targedu hyfforddi dysgu a chymorth personol yn dda ar gyfer y dysgwyr sydd eu hangen fwyaf a gallant ddangos effaith mewn deilliannau. Maent yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi'n dda, ac yn defnyddio partneriaid allanol a threfniadau cydweithredol i ddarparu hyfforddi dysgu a chymorth personol llwyddiannus.
- 10 Mewn mwyafrif o ysgolion, ni chaiff y gwahanol elfennau o gymorth i ddysgwyr eu cydlynu'n dda ac nid ydynt yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Yn benodol, ni chaiff cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd eu cydlynu'n ddigon da. Ymdrinnir â'r cyngor ar ddewisiadau ac opsiynau pynciau i'w hastudio ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 11 fel digwyddiadau ar wahân a dim ond mewn ambell ysgol y ceir cynllun cyffredinol.
- 11 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ystod briodol o staff yn darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr. Nid oes gan leiafrif o ysgolion gynlluniau wrth gefn i reoli gostyngiad pellach yn y cymorth allanol neu i'w galluogi i gadw'r staff ychwanegol sy'n darparu gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.
- 12 Mae mwyafrif yr ysgolion yn arfarnu prif ddata perfformiad ac yn gwneud defnydd mwy cyfyngedig o ddata ar y cynnydd a wna unigolion a grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion yn defnyddio data i arfarnu effaith strategaethau cymorth dysgu yn ddigon da i wybod sut i wella'r ddarpariaeth honno.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 ganolbwyntio gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar wella cyrhaeddiad disgyblion o ran graddau uwch mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg mamiaith ac mewn mathemateg;
- A2 defnyddio agwedd fwy strategol at wasanaethau cymorth i ddysgwyr a chydlynu cyflwyno hyfforddi dysgu, cymorth personol, a chyngor ac arweiniad ar yrfaeodd;
- A3 gwella cwmpas ac ansawdd cyngor ac arweiniad ar yrfaeodd;
- A4 gwneud yn siŵr bod pob un o'r disgyblion yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r staff cymorth mwyaf priodol am eu cynnydd, eu dyheadau a'u llwybr dysgu, yn enwedig ar adegau allweddol ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11;

A5 darparu hyfforddiant a gwybodaeth reolaidd a chyfoes i bob un o'r staff sydd ynghlwm wrth roi cyngor ac arweiniad;

A6 arfarnu effaith gwasanaethau cymorth i ddysgwyr ar ddeilliannau; a

A7 chynllunio ar gyfer gostyngiadau posibl mewn cyllid ar gyfer cymorth allanol er mwyn cynnal lefelau presennol cymorth i ddysgwyr.

Dylai awdurdodau lleol:

A8 arwain a chydlynu partneriaethau i gefnogi ysgolion â gwasanaethau cymorth allanol.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A9 ddiweddarau ei harweiniad i ysgolion ar gyngor ac arweiniad ar yrfaeodd i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i rôl Gyrfa Cymru.

Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 – Mehefin 2014

Prif ganfyddiadau

- 1 Yn y rhan fwyaf o wersi yng nghyfnod allweddol 2 ac mewn mwyafrif o wersi yng nghyfnod allweddol 3, a arsylwyd yn ystod arolygiad ac ar gyfer yr arolwg hwn, mae disgyblion yn cyflawni safonau da mewn Saesneg. Ceir safonau rhagorol mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd lle mae disgyblion yn darllen ac yn ymateb yn dda iawn i ystod eang o destunau ag ystyron cymhleth. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio medrau darllen lefel uwch fel dod i gasgliad a diddwytho yn hyderus, ac maent yn dangos dawn, gwreiddioldeb a chywirdeb yn eu gwaith ysgrifenedig.
- 2 Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd yng nghyfnod allweddol 2, lle bernir bod safonau'n ddigonol, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn darllen yn rhugl am eu hoedran, a gyda dealltwriaeth. Ceir gwendidau yn ysgrifennu disgyblion, gan gynnwys diffyg ysgrifennu annibynnol gan ddisgyblion iau ac ysgrifennu estynedig cyfyngedig, yn enwedig gan ddisgyblion hŷn.
- 3 Mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion uwchradd, mae safonau mewn gwersi Saesneg yn ddigonol am fod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sy'n rhy amrywiol. Er bod llafaredd yn aml yn dda, nid yw'r disgyblion hyn yn darllen nac yn ysgrifennu'n ddigon da. Nid ydynt yn hyderus ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Yn yr ysgolion hyn, nid yw disgyblion yn deall y broses ysgrifennu, gan gynnwys golygu gwaith i wella'r cynnwys. Mae eu gwaith ysgrifenedig yn aml yn fyr, gan ddangos ystod gyfyng o arddulliau a dibenion, ac mae'n cynnwys gormod o gamgymeriadau atalnodi a sillafu.
- 4 Mae gwallau sillafu, atalnodi a gramadeg yn parhau i andwyo ansawdd yr ysgrifennu mewn mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd. Ni roddir digon o bwyslais ar ddysgu disgyblion a defnyddio ystod eang o strategaethau sillafu. Mae'n bwysig i ysgolion gytuno sut i addysgu sillafu, atalnodi a gramadeg a darparu cysondeb yn eu dulliau, fel addysgu rheolau a strategaethau sillafu.
- 5 Er 2008, mae cyfran y disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn asesiadau athrawon wedi cynyddu. Mae cynnydd wedi cyflymu er 2011 yn y ddau gyfnod allweddol. Mae cyfradd y gwelliant wedi bod yn gyflymach yng nghyfnod allweddol 3 nag yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r data ar safonau ysgrifennu yn dangos mwy o welliant er 2008, ond mae safonau mewn ysgrifennu yn parhau i fod yn is nag ydynt mewn llafaredd a darllen yn y ddau gyfnod allweddol. Er gwaethaf y duedd wella gyffredinol, mae cyfradd y cynnydd yn isel o hyd i ddisgyblion yng Nghymru ddal i fyny gyda disgyblion yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ceir dadansoddiad llawn o ddata perfformiad ar dudalennau 8 i 11.
- 6 Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion nad oes ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim mewn Saesneg. Mae'r bwch mewn perfformiad yn ehangu wrth i ddisgyblion symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Gwelliannau cymedrol yn unig fu mewn data

perfformiad ar gyfer disgyblion mwy abl yn y ddau gyfnod allweddol dros y pum mlynedd diwethaf. Nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3.

- 7 Mae ansawdd yr addysgu a'r asesu mewn Saesneg yn dda neu'n well mewn mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn debyg yn fras i'n canfyddiadau yn 2008. Yn yr arfer orau a welwyd mewn lleiafrif o wersi yn unig, caiff medrau iaith eu haddysgu mewn modd eglur ac mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cyflym.
- 8 Nid yw addysgu ysgrifennu wedi'i ddatblygu ddigon mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd. Yn y lleiafrif hwn o ysgolion, ni all disgyblion drosglwyddo medrau darllen ac ysgrifennu i'w gwaith mewn pynciau eraill.
- 9 Mae olrhain cynnydd disgyblion mewn Saesneg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ysgolion yn rhoi 'strategaethau asesu ar gyfer dysgu' ar waith yn ddigon cyson nac effeithiol. Ceir gormod o farcio gwael yng ngwaith disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol o hyd. Ledled Cymru, caiff dibynadwyedd a dilysrwydd asesuadau athrawon statudol eu heffeithio gan wendidau mewn trefniadau ar gyfer safoni a chymedroli barnau athrawon.
- 10 Rhoddir blaenoriaeth uchel i Saesneg yng nghwricwlwm bron pob ysgol yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn neilltuo amser ar gyfer addysgu Saesneg, gan gynnwys datblygu medrau darllen. Mae cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Saesneg yn gyffredinol dda mewn mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif sylweddol o ysgolion cynradd ac uwchradd, nid yw cynlluniau yn rhoi digon o sylw i fedrau darllen ar gyfer deall ac ysgrifennu deunydd anllenyddol. Nid oes cydbwysedd da rhwng testunau anllenyddol a thestunau naratif llenyddol. Mewn mwyafrif o ysgolion cynradd ac uwchradd, nid yw'r gwaith yn ddigon heriol ar gyfer disgyblion mwy abl.
- 11 Mae cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) yn parhau i fod yn nodwedd gref yng ngwaith y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da mewn Saesneg.
- 12 Ni cheir trefniadau pontio effeithiol mewn lleiafrif o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ac maent yn wael mewn rhai ysgolion. Mae hyn yn effeithio ar gynnydd disgyblion mewn Saesneg o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.
- 13 Ceir arweinyddiaeth dda mewn llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mewn rhai ysgolion lle ceir arweinyddiaeth ragorol, mae uwch reolwyr yn canolbwyntio ar sefydlu a chynnal safonau uchel wrth addysgu Saesneg, fel bod disgyblion yn ennill y medrau sydd eu hangen ar gyfer pob pwnc. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r uwch arweinwyr gorau yn rhoi blaenoriaeth uchel i safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.
- 14 At ei gilydd, mae gan fwyaf o ysgolion cynradd a lleiafrif o ysgolion uwchradd systemau gwella ansawdd sy'n defnyddio ystod eang o ddata perfformiad a data arall i farnu'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae gwendidau yng nghynlluniau gwella lleiafrif o ysgolion. Nid yw cynlluniau ysgol gyfan a chynlluniau pwnc yn cynnwys digon o fanylion am y camau y bydd staff yn eu

cymryd i wella medrau Saesneg disgyblion, yn enwedig mewn ysgrifennu. Nid yw cynlluniau yn cynnwys meini prawf llwyddiant meintiol, i farnu effaith y camau gweithredu ar safonau Saesneg.

Argymhellion

Dylai ysgolion cynradd ac uwchradd:

- A1 barhau i ganolbwyntio ar godi safonau ysgrifennu annibynnol ac estynedig disgyblion, gan roi sylw agos i gynnwys, mynegiant a chywirdeb;
- A2 parhau i wella gallu disgyblion i ddarllen er gwybodaeth a defnyddio medrau darllen lefel uwch;
- A3 mynd i'r afael â thanberfformio gan ddisgyblion sydd â hawl i gael pryddau ysgol am ddim mewn Saesneg, gan gynnwys ar gyfer disgyblion mwy abl, trwy dargedu a gweddu cymorth i'w hanghenion dysgu unigol;
- A4 darparu gwaith heriol mewn Saesneg i ymestyn pob disgybl, yn enwedig y rhai mwy abl;
- A5 cytuno sut i addysgu sillafu, atalnodi a gramadeg a darparu cysondeb mewn dulliau, fel addysgu rheolau a strategaethau sillafu;
- A6 gwella arferion asesu ar gyfer dysgu a marcio gwaith disgyblion;
- A7 sicrhau cydbwysedd gwell rhwng deunydd llenyddol a deunydd anllenyddol ac ymdrin â phob un o'r saith *genre* ysgrifennu¹;
- A8 gweithio gydag ysgolion eraill i rannu arferion safoni a chymedroli effeithiol; a
- A9 rhannu mwy o wybodaeth i gynorthwyo cyfnod pontio disgyblion i'r ysgol uwchradd.

Yn ychwanegol, dylai ysgolion uwchradd:

- A10 wella addysgu ysgrifennu fel proses trwy annog disgyblion i gynllunio, adolygu, golygu a gwella eu gwaith eu hunain; a
- A11 gwneud mwy o ddefnydd o lafaredd cyn darllen ac ysgrifennu, er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu ac ymestyn eu dealltwriaeth a gwella ansawdd eu gwaith.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A12 wella dibynadwyedd a dilysrwydd asesuadau athrawon trwy adolygu meini prawf asesu a chyflwyno safoni allanol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

¹ Y saith math o *genre* ysgrifennu yw naratif, adrodd, cyfarwyddyd, adroddiadau anghronolegol, esboniad, argyhoeddi a thrafodaeth. Esbonir y termau hyn yn yr eirfa.

ADCDF – Cynnydd mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang – Mehefin 2014

Prif ganfyddiadau

Dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

- 1 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, mae dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n briodol wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol ac mae'n gyffredinol gadarn ar gyfer pob un o'r saith thema ar gyfer ADCDF. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a'u dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang erbyn hyn. Mae hyn yn welliant er 2006 pan nad oedd dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu cystal.

Datblygu cynaliadwy

- 2 Yn aml, mae gan ddisgyblion ddiddordeb mawr yn yr amgylchedd naturiol ac mae eu dealltwriaeth ohono yn dda ar y cyfan. Mae bron pob disgybl yn deall eu bod yn dibynnu ar yr amgylchedd am ynni, bwyd ac adnoddau eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn deall bod angen arbed ynni, ond yn aml o ran arbed arian yn hytrach nag adnoddau.
- 3 Yn yr ysgolion gorau, mae dealltwriaeth disgyblion o ddefnydd a gwastraff yn datblygu'n dda. Maent yn deall o ble mae'r pethau y maent yn eu defnyddio yn dod ac i ble mae gwastraff yn mynd, er mai lleiafrif ohonynt yn unig sy'n deall cyd-ddibyniaeth cynhyrchwyr a defnyddwyr. Prin yw'r disgyblion sy'n deall y gwahaniaeth rhwng 'safon byw' ac 'ansawdd bywyd.'
- 4 Prin yw'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen neu gyfnod allweddol 2 sy'n deall y gwahaniaeth rhwng hinsawdd a thywydd, ond mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn deall cysyniad newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang a gall llawer ohonynt esbonio'r goblygiadau i'r ffordd rydym yn byw.

Dinasyddiaeth fyd-eang

- 5 Yn gyffredinol, mae gan ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol ddealltwriaeth briodol o gysyniadau cyfoeth a thlodi a rhai o'u goblygiadau. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth o effeithiau anghydraddoldeb ar fywydau pobl ac maent yn deall y mathau o gymorth y gall elusennau ei ddarparu ar gyfer pobl mewn angen. Mae gan bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion uwchradd ddealltwriaeth dda o'r

anhydraddoldeb sy'n bodoli rhwng pobl mewn gwahanol wledydd, a rhwng pobl o fewn gwledydd.

- 6 Yn gyffredinol, mae disgyblion mewn ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion ethnig lleiafrifol yn deall effaith gwahaniaethu a rhagfarn ar unigolion yn well na disgyblion mewn ysgolion eraill. Prin yw'r disgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 sydd â dealltwriaeth dda o hunaniaeth a diwylliant, gan gynnwys cysyniadau cymhleth fel y cysylltiad rhwng diwylliant, ffydd a systemau gwerthoedd a chredoau unigol.
- 7 Gall bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw roi enghreifftiau o ffyrdd y maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol. Maent yn dylanwadu ar waith yr ysgol trwy grwpiau fel y cyngor ysgol, y cyngor eco neu'r grŵp byw yn iach. Maent yn sylweddoli bod canlyniadau i weithredoedd ac, ar y cyfan, maent yn gwybod sut i leihau gwrthdaro personol i'r eithaf.
- 8 Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn deall egwyddorion sut i ofalu am eu hiechyd eu hunain ac iechyd pobl eraill. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall effeithiau negyddol llygredd, tybaco ac alcohol ar eu hiechyd ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn deall bod ffyrdd y gellir gwella iechyd ac ansawdd bywyd mewn gwledydd o gwmpas y byd.

Gweledigaeth, polisi, cynllunio a hyrwyddo ADCDF

- 9 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer hyrwyddo ADCDF. Mae gan yr ysgolion sydd â'r polisiau mwyaf effeithiol ar gyfer datblygu ADCDF ddiffiniad a dealltwriaeth glir o ADCDF a'r hyn y mae'n ei olygu i'w staff a'u disgyblion yng nghyd-destun eu hysgol a thu hwnt. Mae'r eglurder hwn wrth ddeall ADCDF wedi gwella er 2006.
- 10 Mae gan fwyaf yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw gynlluniau effeithiol ar gyfer datblygu a chyflwyno ADCDF. Mae bron pob ysgol yn addysgu agweddau ar ADCDF yn effeithiol trwy amrywiaeth o bynciau. Mewn lleiafrif o'r ysgolion, nid yw cynllunio yn systematig ac mae'n dibynnu gormod ar brosiectau ar wahân a heb eu cydlynu i ymdrin â nhw. O ganlyniad, cyfyngedig yw dealltwriaeth disgyblion o effaith eu gweithredoedd o ran ADCDF. Pan fydd cynllunio mewn ysgolion uwchradd yn fwyaf effeithiol, mae athrawon sy'n arbenigo mewn pynciau penodol yn cynllunio ar gyfer astudio ADCDF gyda'i gilydd. Mae hyn yn cryfhau'r ddarpariaeth ac yn sicrhau bod athrawon sydd â dealltwriaeth gryfach o'r agweddau mwy cymhleth ar ADCDF yn eu haddysgu. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth ddyfnach o'r agweddau hyn.
- 11 Mae ysgolion sydd â'r cynllunio mwyaf effeithiol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, llythrennedd a meddwl o fewn prosiectau thematig trawsgwricwlaidd sy'n canolbwyntio ar ADCDF. Fodd bynnag, mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nid yw athrawon yn ymgorffori cyfleoedd digon da i

ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwaith ADCDF. Nid yw hyn wedi gwella er 2006.

- 12 Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gweithgareddau eraill i hyrwyddo ADCDF ac ymestyn gwybodaeth a phrofiadau disgyblion. Mae pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn dilyn o leiaf un cynllun achrededig mewn meysydd sy'n gysylltiedig ag ADCDF. Fodd bynnag, prin yw'r ysgolion sy'n casglu tystiolaeth i asesu'r effaith y mae'r cynlluniau hyn wedi'i chael ar ddealltwriaeth disgyblion o gysyniadau ADCDF.

Arweinyddiaeth, rheolaeth a chymorth ar gyfer ADCDF

- 13 Pan fydd ysgolion wedi nodi aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb clir am arwain a datblygu ADCDF, mae'r ddarpariaeth yn effeithiol ar y cyfan ac mae dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau allweddol o leiaf yn dda. Pan nad yw cyfrifoldebau'n ddigon clir, nid yw hyn yn wir.
- 14 Mae gan athrawon lawer o hyder wrth gyflwyno ADCDF mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Pan na roddwyd blaenoriaeth i hyfforddiant, nid yw aelodau o staff yn hyderus i addysgu'r cysyniadau mwy cymhleth sy'n gysylltiedig ag ADCDF. Byddai'r rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn elwa ar ragor o hyfforddiant mewn agweddau penodol ar ADCDF. Byddai cyfeirlyfr o gysylltiadau arfer dda yn ddefnyddiol.
- 15 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys agweddau ar ADCDF yn eu gweithdrefnau hunanarfarnu. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn arfarnu'r cynllunio a'r cyflwyno, ond ychydig iawn o ysgolion sy'n arfarnu effaith y ddarpariaeth ar ddealltwriaeth disgyblion o ADCDF.
- 16 Mae gan aelod o'r corff llywodraethol gyfrifoldeb penodol am ADCDF mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Ychydig iawn o lywodraethwyr sydd wedi cael hyfforddiant heblaw gan yr ysgol neu sy'n teimlo'n ddigon hyderus i herio'r ysgolion mewn perthynas ag ADCDF.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 wella dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mwy cymhleth ADCDF a nodwyd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hunaniaeth a diwylliant;
- A2 cynllunio ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o'r saith thema ADCDF ar draws y cwricwlwm yn raddol, ac asesu ac olrhain datblygiad disgyblion;
- A3 cynllunio ar gyfer ADCDF i wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion;
- A4 darparu amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol i gefnogi ADCDF;
- A5 nodi aelodau o staff i fod â chyfrifoldeb am gydlynu a datblygu ADCDF ar draws

yr ysgol;

A6 darparu hyfforddiant priodol ar gyfer athrawon ac aelodau eraill o staff i'w helpu i gyflwyno ADCDF yn fwy effeithiol, gan gynnwys ei chysyniadau mwy cymhleth; a

A7 sicrhau bod llywodraethwyr yn cael hyfforddiant i'w galluogi i gefnogi a herio'r ysgol wrth gyflwyno ADCDF.

Dylai awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol:

A8 sefydlu cyfeirlyfr o ddarparwyr sydd ag arfer dda mewn ADCDF, y gellir ei rannu ag ysgolion; a

A9 darparu hyfforddiant i lywodraethwyr i'w galluogi i gefnogi a herio ysgolion yn briodol o ran ADCDF.

Gweithredu ar fwlio – Mehefin 2014

Prif ganfyddiadau

Profiadau disgyblion o fwlio

- 1 Mae gormod o ddisgyblion yn dioddef o fwlio ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Gall effeithiau cael eich bwlio fod yn rhai tymor byr neu dymor hir, yn seicolegol neu'n gymdeithasol, ac maent yn aml yn arwain at dangyflawni neu broblemau presenoldeb. Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn wynebu risg uwch na'r cyffredin o gael eu bwlio, gan gynnwys:
 - disgyblion ag anghenion arbennig neu anabledd;
 - disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; a
 - disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu grefyddol.
- 2 Mae profiadau disgyblion o fwlio a'r ffyrdd y mae ysgolion yn delio ag ef yn amrywio'n eang. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, gallai pa mor dda y mae staff yn delio â bwlio amrywio o fewn ysgol hefyd. Yn yr ysgolion uwchradd hyn, nid oes gan staff ddealltwriaeth glir o beth sy'n gwneud 'achos adroddadwy' o fwlio, am nad oes gan yr ysgol ddiffiniad cytûn o fwlio sy'n cael ei ddeall yn glir gan gymuned yr ysgol gyfan. Hyd yn oed mewn ysgolion sydd â strategaethau cadarn i fynd i'r afael â bwlio, yn aml, nid oes dealltwriaeth ar y cyd o bwysigrwydd y nodweddion gwarchoddedig na'u goblygiadau cyfreithiol.

Ethos a gwerthoedd

- 3 Mae disgyblion yn adrodd am lai o achosion o fwlio, yn gyffredinol ac ar sail y nodweddion gwarchoddedig, mewn ysgolion lle ceir ethos cryf sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn sefydlu sail gadarn ar gyfer delio â bwlio trwy helpu disgyblion i ddeall eu hawliau a defnyddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r ysgolion lle mae arweinwyr yn defnyddio'r confensiwn i sefydlu ethos lle mae plant yn deall bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel ac yn gallu arfer yr hawl honno yn aml yn llwyddo i oresgyn effeithiau bwlio ac achosion o fwlio. Dyfynnir astudiaethau achos ysgolion o'r fath ym mhennod 2 yr adroddiad hwn.
- 4 Ceir cyswllt agos rhwng y modd y mae disgyblion yn trin ei gilydd a pha mor dda y mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau am ymddygiad disgyblion. Mae'r ysgolion gorau yn defnyddio dull rhagweithiol o atal bwlio a lliniaru ei effeithiau pan fydd yn digwydd. Er enghraifft, maent yn gwneud yn siŵr bod goruchwyliaeth effeithiol rhwng gwersi, amser egwyl ac amser cinio, pan mae bwlio'n fwy tebygol o ddigwydd, ac yn darparu lleoedd diogel ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn ystod y cyfnodau hyn. Maent yn darparu gwasanaethau cwnsela ac yn defnyddio asiantaethau allanol i gynorthwyo disgyblion sy'n cael eu bwlio.

Ymgynghori â disgyblion

- 5 Ychydig iawn o ysgolion sy'n ymgynghori â grwpiau o ddisgyblion i gael darlun go iawn o raddau a natur bwlio yn yr ysgol. Mae'r ysgolion gorau yn defnyddio ystod o ddulliau i gasglu barn disgyblion, rhieni neu ofalwyr, a staff am fwlio.

Bwlio geiriol

- 6 Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, nid oes gan staff ddarlun clir o raddau'r bwlio geiriol sy'n digwydd neu'r math o iaith a ddefnyddir yn rheolaidd fel ffurf o sarhad. Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd, nid yw staff yn trin sylwadau a all achosi tramgwydd yn ddigon difrifol ond maent yn ei drin fel 'cellwair' arferol.

Cadw cofnodion

- 7 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn yr arolwg yn cadw cofnodion o achosion ymddygiadol a chofnod penodol o achosion o fwlio. Ychydig iawn o ysgolion cynradd sy'n categoreiddio achosion yn unol â'r nodweddion gwarchoddedig. O ganlyniad, nid ydynt yn cael darlun clir o batrymau ymddygiad dros gyfnod y gallant ei ddefnyddio i lywio cynllunio gwrth-fwlio.

Cynorthwyo disgyblion

- 8 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod wrth bwy i ddweud os ydynt yn gweld rhywun yn cael ei fwlio neu'n cael eu bwlio eu hunain. Mae'r ysgolion gorau yn arddangos manylion ynghylch ble mae cymorth ar gael, ac yn rhoi manylion am linellau cymorth lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgolion hyn yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gynorthwyo ei gilydd, er enghraifft trwy systemau cyfeillion. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgol gynradd yn hyderus y bydd yr ysgol yn delio â'u problemau yn effeithiol. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn, maent yn mynd yn llai hyderus y bydd yr ysgol yn gallu datrys problemau bwlio.
- 9 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal 'wythnos gwrth-fwlio' bob blwyddyn sydd fel arfer yn cynnwys materion yn gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig. Mae'r wythnosau hyn fel arfer yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, gan gynnwys mwy o gadernid wrth ddelio â bwlio. Fodd bynnag, ni chynllunnir gystal ar gyfer datblygu cadernid yn y cwricwlwm ysgol yn gyffredinol. Mewn llawer o ysgolion, mae'r cwricwlwm yn dathlu gwahaniaethau unigol, ond mae'n aml yn osgoi'r agweddau y mae staff yn teimlo'n llai hyderus yn eu trafod, fel homoffobia ac ailbennu rhywedd. Mae lleiafrif o ysgolion yn bryderus ynghylch amlygu problemau amrywiaeth ac yn gweld hyn yn ddadleuol o bosibl. Mae'r agwedd hon yn golygu bod lleiafrif o ysgolion dim ond yn mynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, yn hytrach nag adeiladu arnynt yn y cwricwlwm mewn modd rhagweithiol.

Bwlio seiber

- 10 Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae disgyblion a staff yn pryderu am y cynnydd mewn bwlio seiber, yn enwedig mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig. Mae bwlio seiber wedi creu mathau newydd o fwlio nad yw rhai staff

yn gyfarwydd â nhw. Yn yr arfer orau, mae staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y technolegau y mae disgyblion yn eu defnyddio ac yn deall y potensial i'w camdefnyddio yn yr ysgol a thu hwnt.

Polisiâu, cynlluniau a gweithdrefnau

- 11 Nid yw llawer o gynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion yn rhoi digon o sylw i'r ystod lawn o nodweddion gwarchoddedig. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi achosi cryn ddryswch, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, rhwng cynllun cydraddoldeb anabledd a chynllun cydraddoldeb strategol, ac efallai na fydd camau gweithredu yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig yn ymddangos yn y naill neu'r llall. O'r ysgolion yn yr arolwg, dim ond rhai ohonynt sy'n nodi 'lleihau bwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig' fel un o'u hamcanion cydraddoldeb. Nid yw hyd yn oed yr ysgolion hyn yn cyfeirio at fanylion, fel sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â bwlio ar sail hil neu fynd i'r afael â phroblemau bwlio homoffobig.
- 12 Mae gan lawer o ysgolion bolisiâu ymddygiad a gwrth-fwlio ar wahân. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff y polisiâu hyn eu deall yn dda ac maent yn nodi disgwyliadau'r ysgol ynglŷn â'r modd y dylai aelodau o gymuned yr ysgol drin ei gilydd. Mae rhai ysgolion wedi cyfuno'r polisiâu hyn mewn un ddogfen. Mae'r ysgolion hyn yn gweld bwlio o fewn continwwm ymddygiad ac yn tueddu i ddelio ag ef yn fwy llwyddiannus.
- 13 Wrth lunio cynlluniau cydraddoldeb strategol, mae'n ofynnol i ysgolion ymgynghori'n eang â'r gymuned a gyda grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchoddedig. Mae llawer o ysgolion yn ymgynghori â disgyblion, rhieni a staff, ond mae rhai ohonynt yn gofyn barn grwpiau sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchoddedig.
- 14 Mewn llawer o ysgolion, mae cyrff llywodraethol yn adolygu cynnydd tuag at fodloni'r cynllun cydraddoldeb strategol bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae ansawdd y monitro hwn a'r wybodaeth a roddir i lywodraethwyr yn amrywio gormod ac mae'n anfoddhaol ar y cyfan.
- 15 Rhoddodd awdurdodau lleol gymorth i ysgolion gyda llunio cynlluniau cydraddoldeb strategol. Nid yw pob awdurdod lleol a chonsortia rhanbarthol yn rhoi cymorth a chynghor parhaus i ysgolion trwy fonitro priodoldeb amcanion strategol ysgolion neu'r cynnydd tuag at eu bodloni yn ddigon da. Nid yw llawer ohonynt yn darparu hyfforddiant effeithiol i lywodraethwyr sy'n eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol.
- 16 Mewn rhai clystyrau, mae ysgolion yn cydweithio i nodi materion posibl mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig wrth baratoi cynlluniau cydraddoldeb strategol. Mae'r clystyrau hyn yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd defnyddiol wrth oresgyn gwahaniaethu a bwlio. Fodd bynnag, ychydig iawn o achosion a geir pan fydd ysgolion sy'n bwydo ac ysgolion sy'n derbyn yn gweithio tuag at amcanion cydraddoldeb strategol ar y cyd.

Datblygiad ac agweddau staff

- 17 Mae llawer o ysgolion yn rhoi hyfforddiant i staff ar fwlio, er bod yr hyfforddiant yn tueddu i fod yn gyffredinol ac nid yw'n ymwneud yn benodol â'r nodweddion gwarchoddedig. Pan fydd staff yn cael hyfforddiant penodol, maent yn gweld hyn yn ddefnyddiol. Mae ysgolion yn dweud nad oes hyfforddiant wyneb yn wyneb o ansawdd uchel, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsrywiol. Nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o ganllawiau defnyddiol Llywodraeth Cymru 'Parchu Eraill'.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 godi ymwybyddiaeth am fwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig gyda disgyblion, rhieni, staff, a llywodraethwyr a defnyddio dull mwy rhagweithiol o atal a lliniaru ei effeithiau (gweler Atodiad 3 am restr wirio);
- A2 ymgynghori â disgyblion, rhieni, a phobl eraill i nodi graddau a natur bwlio yn yr ysgol a chytuno ar gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol;
- A3 cynllunio cyfleoedd sy'n briodol i oedran yn y cwricwlwm i drafod materion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig a meithrin gallu disgyblion i wrthsefyll bwlio;
- A4 sicrhau bod gan staff dealltwriaeth glir o raddau a natur y bwlio a allai ddigwydd yn yr ysgol, gan gynnwys bwlio seiber,
- A5 gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod sut i ddelio ag achosion o fwlio a'u cofnodi;
- A6 cofnodi a monitro achosion o fwlio mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig a defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu amcanion cydraddoldeb strategol; a
- A7 gwneud yn siŵr bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A8 ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff ysgolion i wella eu dealltwriaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i goblygiadau;
- A9 darparu hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr ysgol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol i fonitro cynlluniau ac amcanion cydraddoldeb strategol; a
- A10 monitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion yn agosach.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A11 roi cyhoeddusrwydd i ganllawiau 'Parchu Eraill'.

TGCh yng nghyfnod allweddol 3 – Gorffennaf 2014

Prif ganfyddiadau

Safonau

- 1 Mae safonau mewn TGCh fel pwnc yn dda neu'n well mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn. Yn asesiadau athrawon cyfnod allweddol 3, TGCh fu'r pwnc di-graidd sy'n perfformio orau am y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ni chaiff y lefel hon o berfformiad ei hadlewyrchu yng nghanfyddiadau arolygwyr pan wnaethant ymweld ag ysgolion yr arolwg. Ni chaiff hyn ei adlewyrchu mewn canlyniadau TGAU a Safon Uwch chwaith.
- 2 Mae medrau disgyblion wrth ddefnyddio TGCh ar gyfer ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion. Pan fydd safonau'n ddigonol neu'n waeth, nid yw disgyblion yn datblygu'r ystod lawn o fedrau TGCh y dylent i safon ddigon uchel, yn enwedig wrth greu cronfeydd data a modelu. Maent hefyd yn dibynnu gormod ar yr athro am gymorth.

Addysgu

- 3 Mae ansawdd addysgu TGCh fel pwnc yn dda neu'n well mewn hanner y gwersi a arsylwyd. Pan fydd yr addysgu'n gryf, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol yn dda i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am TGCh a'r ffordd y maent yn ei chymhwyso ym mhob agwedd ar y pwnc. Maent yn ennyn brwdfrydedd ac yn cymell disgyblion yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn parhau i ganolbwyntio a chadw at y dasg. O ganlyniad, daw disgyblion yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.
- 4 Mewn hanner y gwersi a arsylwyd lle nad yw'r addysgu'n well na digonol, nid yw athrawon yn ystyried gwybodaeth flaenorol disgyblion yn ddigon da ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigonol. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn dibynnu gormod ar athrawon am gymorth ac nid yw athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gwneud cynnydd trwy adeiladu ar wybodaeth a medrau blaenorol.

Cynllunio, darpariaeth ac asesu

- 5 Mae ansawdd y cynllunio, y ddarpariaeth a'r asesu ar gyfer TGCh fel pwnc yn dda neu'n well mewn hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw. Pan fydd y cynllunio'n dda, mae cynlluniau gwaith yn sicrhau ymdriniaeth lawn â'r gofynion statudol ar gyfer y pwnc ar y lefel briodol, ac fe gaiff hyn ei roi ar waith yn llawn. Mewn ysgolion eraill, nid ymdrinnir yn addas â'r gofynion statudol hyn. Ychydig iawn o ysgolion uwchradd sy'n cysylltu'n effeithiol â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i sicrhau parhad a dilyniant mewn TGCh o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.
- 6 Pan fydd yr asesu'n dda, mae ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu ac mae athrawon hefyd yn cynnwys disgyblion yn llwyddiannus mewn asesu eu gwaith. Caiff hyn effaith dda ar safonau. Er bod bron

pob ysgol yn safoni asesiadau yn yr ysgol, ychydig iawn ohonynt yn unig sydd wedi gwneud y trefniadau i safoni asesu yn allanol.

- 7 Mae dibynadwyedd a dilysrwydd asesiadau athrawon mewn TGCh ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn amheus. Mae hyn yn aml am fod asesiadau yn rhy hael, ac fe gaiff hyn ei gymhlethu gan ddiffyg gwirio allanol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- 8 Mae tua hanner yr arweinwyr canol yn llwyddo i godi safonau mewn TGCh fel pwnc trwy osod disgwyliadau uchel ar gyfer addysgu. Maent yn sicrhau bod athrawon yn cydweithio i greu cynlluniau gwaith effeithiol ac adnoddau ysgogol. Maent yn monitro gwaith cydweithwyr yn drylwyr i sicrhau bod pob un o'r staff yn cadw at y cynllun gwaith. Maent yn rhoi gweithdrefnau asesu ac olrhain effeithiol ar waith.
- 9 Nid oes gan bron o draean o ysgolion gynllun gwella TGCh addas sy'n nodi'n glir sut bydd yr ysgol yn gwella safonau, darpariaeth ac yn blaenoriaethu strategaethau TGCh ar draws yr ysgol.
- 10 Mewn tua hanner yr ysgolion, mae arweinwyr yn cyfoethogi'r cwricwlwm TGCh gyda phrofiadau mewn rhaglennu a chodio cyfrifiadurol, sy'n mynd y tu hwnt i ofynion y cwricwlwm cenedlaethol presennol.
- 11 Nid yw'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer TGCh yn gwbl berthnasol i anghenion technolegol y gymdeithas heddiw nac yn ddigon difyr ar gyfer disgyblion.
- 12 Mae amser cwricwlwm TGCh yn amrywio'n sylweddol o un ysgol i'r llall. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn cynnig yr hyn sy'n cyfateb i wers yr wythnos yng nghyfnod allweddol 3, ac yn aml, nid yw hyn yn rhoi digon o amser i ddisgyblion ymdrin â phob agwedd ar y cwricwlwm TGCh yn effeithiol.
- 13 Mae adrannau TGCh yn wael ar y cyfan am gysylltu ag adrannau eraill ac nid ydynt yn darparu cyd-destunau perthnasol i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm i gymhwyso'r medrau a ddatblygwyd ganddynt mewn gwersi TGCh ar wahân.
- 14 Dywed staff mewn tua hanner yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt fod ansawdd gwael y cysylltiad â'r rhyngrwyd yn atal eu gwaith TGCh. Mae lefel yr hidlo a rhwystro safleoedd y rhyngrwyd gan awdurdodau lleol yn rhwystro mynediad yn ddiangen yn y mwyafrif o ysgolion hefyd.
- 15 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ansicr ynglŷn â lefel y trefniadau cymorth TGCh y gellir eu darparu gan y consortia rhanbarthol newydd. Ar hyn o bryd, ni chaiff arweinwyr canol ac athrawon ddigon o gyfle i fanteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol priodol, adolygiadau allanol a chyfleoedd rhwydweithio rheolaidd.

TGCh ar draws y cwricwlwm

- 16 Mae safonau medrau TGCh ar draws y cwricwlwm yn anfoddhaol mewn dros hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ac nid ydynt yn well na digonol yn y gweddill. Ni chynigir digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau a ddysgwyd mewn

gwersi TGCh ar wahân mewn pynciau eraill. O ganlyniad, maent yn datblygu meddylfryd o ddewis peidio â chymhwyso'r medrau hyn trwy ddewis.

- 17 Mae ansawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer defnyddio TGCh ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn anfoddhaol mewn llawer o ysgolion ac nid yw'n well na digonol yn yr ysgolion eraill. Nid yw athrawon yn cynnig cyfleoedd digon cynlluniedig i ddisgyblion ymarfer eu medrau mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm.
- 18 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn defnyddio TGCh yn dda fel cyfrwng i helpu codi safonau mewn llythrennedd. Mae disgyblion yn datblygu medrau brasddarllen effeithiol wrth iddynt sganio am wybodaeth berthnasol ac mae llawer ohonynt yn dethol, yn dehongli ac yn cyflwyno gwybodaeth yn briodol. Fodd bynnag, mae disgyblion yn aml yn copïo gwybodaeth o wefannau heb ei chrynhoi yn eu geiriau eu hunain neu'i haildrefnu i gynnwys y testun dan sylw. Yn yr enghreifftiau gwaethaf, mae disgyblion yn canolbwyntio mwy ar gynllun, dyluniad a thrawsnewidiad eu sleidiau cyflwyno yn hytrach nag ansawdd a chywirdeb y cynnwys.
- 19 Caiff TGCh lai o effaith ar helpu i godi safonau mewn rhifedd na llythrennedd. Prin yw'r athrawon sy'n defnyddio TGCh yn rheolaidd i gefnogi datblygiad medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Pan fydd disgyblion yn defnyddio TGCh yn dda, maent yn creu amrywiaeth o graffiau, yn creu tablau ac yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni yn effeithiol wrth ddatrys problemau bywyd go iawn.
- 20 Ychydig o ysgolion yn unig sy'n arfarnu effaith TGCh ar godi safonau mewn llythrennedd neu rifedd neu wrth liniaru effeithiau anfantais. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn dibynnu gormod ar dystiolaeth anecdotaidd yn hytrach na deilliannau mesuradwy i arfarnu effaith.

Argymhellion

Er mwyn gwella safonau mewn TGCh mewn ysgolion uwchradd yng nghyfnod allweddol 3:

Dylai ysgolion:

- A1 wella'r ffordd y caiff TGCh ei chyflwyno a'i monitro ar draws y cwricwlwm i sicrhau parhad a dilyniant ym medrau TGCh disgyblion;
- A2 sicrhau bod pob elfen o'r rhaglen astudio TGCh yn cael ei hastudio'n dda ar draws y cyfnod allweddol;
- A3 gwella ansawdd yr addysgu fel bod disgyblion yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol ac yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu eu medrau TGCh yn ystod gwersi TGCh ac mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm;
- A4 darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol a digonol ar gyfer pob un o'r athrawon;
- A5 gwella cywirdeb asesiadau athrawon;

A6 cysylltu'n effeithiol â'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i sicrhau parhad wrth gynllunio'r ffordd y caiff TGCh ei chyflwyno ar draws cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 fel nad yw disgyblion yn ailedrych ar fedrau yn ddiangen a cholli diddordeb mewn gwersi; a

A7 gwella'r cysylltu rhwng yr adran TGCh ac adrannau pwnc eraill fel bod gan ddisgyblion fwy o gyd-destunau i gymhwyso a datblygu eu medrau.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

A8 sicrhau bod cymorth cwricwlwm TGCh ar gael i bob ysgol uwchradd;

A9 monitro safonau a darpariaeth TGCh fel pwnc ac effeithiolrwydd y defnydd a wneir ohoni ar draws y cwricwlwm; a

A10 chynorthwyo ysgolion i wella cywirdeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A11 rhoi fframwaith statudol perthnasol ar gyfer TGCh o'r Cyfnod Sylfaen i'r sector ôl-16 ar waith ac adolygu gorchmynion pwnc y Cwricwlwm Cenedlaethol i adlewyrchu datblygiadau presennol mewn technoleg; a

A12 chynorthwyo awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i fynd i'r afael â'r materion technegol sy'n cyfyngu mynediad at adnoddau TGCh mewn ysgolion uwchradd.

Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – Medi 2014

Prif ganfyddiadau

- 1 Yn y pum mlynedd diwethaf, mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gwella'n raddol. Mae absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig ill dau wedi gostwng. Mae cyfran y disgyblion heb unrhyw absenoldebau wedi cynyddu hefyd. Mae bron i dri o bob pump o weddill yr absenoldebau yn sgil salwch. Er gwaethaf y gwelliant, mae absenoliaeth yn destun pryder mewn bron i draean o ysgolion uwchradd a arolygwyd yn ystod tair blynedd gyntaf y cylch arolygu presennol ac mae'n golygu bod grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed dan anfantais anghymesur.
- 2 Bu gostyngiad flwyddyn ar ôl blwyddyn yng nghyfran y disgyblion sy'n absennol o'r ysgol yn barhaus. Er hynny, mae absenoldebau parhaus yn cyfrif am ychydig dros chwarter o'r holl absenoldebau mewn ysgolion uwchradd erbyn hyn.
- 3 Caiff absenoldeb o'r ysgol effaith amlwg ar berfformiad addysgol. Mae tua dau o bob pump o ddisgyblion sy'n absennol am rhwng 10-20% o sesiynau yn cyflawni trothwy lefel 2 sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, o gymharu â thua thri o bob pump ar gyfer disgyblion sy'n absennol ar gyfer rhwng 4-6% o sesiynau. Er gwaethaf yr effaith a gaiff cyfradd absenoldeb o 10-20%, mae cyfradd presenoldeb y trothwy ar gyfer cyfeirio at Wasanaethau Lles Addysg dros 20% ar y cyfan.
- 4 Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod yn absennol, bod yn absennol yn barhaus, ac o danberfformio. Mae cyfradd absenoldeb gyffredinol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bron ddwywaith yn fwy na'r gyfradd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i'w cael. Mae'r gyfradd absenoldeb anawdurdodedig ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bedair gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys i'w cael. Mae bron i un o bob pump o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn absennol yn barhaus. Mae hyn yn llawer uwch na'r 5% o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n absennol yn barhaus.
- 5 Mae'r gyfradd absenoldeb ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn uwch nag ydyw ar gyfer disgyblion nad oes ganddynt AAA. Mae cyfradd absenoldeb disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol yn uwch nag unrhyw grwpiau eraill o ddisgyblion ag AAA. Y grŵp hwn o ddisgyblion oedd â'r gyfradd uchaf o absenoldebau anawdurdodedig hefyd. Mae deirgwaith a hanner yn uwch nag ydyw ar gyfer disgyblion nad oes ganddynt AAA.
- 6 Mae ysgolion wedi cryfhau'r negeseuon y maent yn eu rhoi ynglŷn â'r cyswllt rhwng presenoldeb uchel a chyflawniad academiaidd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'r cyswllt hwn. Gydag eithriadau prin, mae disgyblion yn gwybod beth yw lefel bresennol eu presenoldeb a'u lefel targed. Er gwaethaf y ffaith fod gan

ddisgyblion ddealltwriaeth dda o resymau am ddiffyg presenoldeb, nifer fach o ysgolion yn unig sy'n cynnwys disgyblion mewn datblygu strategaethau i wella presenoldeb, er enghraifft trwy gynghorau ysgol.

- 7 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn wedi nodi dulliau strategol o wella presenoldeb ac mae gan rai ohonynt strategaeth presenoldeb ysgrifenedig. Mae'r strategaethau'n amrywio o ran eu cynnwys a'u hansawdd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer delio ag absenoldeb ac yn nodi'r gweithgareddau cyffredinol a roddodd yr ysgol ar waith i gefnogi presenoldeb. Nid yw'r strategaethau hyn fel arfer wedi'u seilio ar ddadansoddiad manwl o'r data sydd ar gael ac nid ydynt yn gosod targedau clir ar gyfer gwella chwaith. Mae llai na hanner yr ysgolion wedi cynnal dadansoddiad digon da o ran pam nad yw disgyblion yn mynd i'r ysgol ac nid ydynt yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion. Nid yw tua hanner yr ysgolion yn defnyddio data i arfarnu effaith mentrau i wella presenoldeb.
- 8 Gydag eithriadau prin, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt, er enghraifft yn sgil mentora gan gyfoedion. Caiff arfer adferol, canolfannau cymorth i ddisgyblion a grwpiau anogaeth eu defnyddio'n effeithiol ac maent wedi galluogi mwy o ddisgyblion i fynd i'r ysgol yn amlach. Fodd bynnag, nid yw rhai ysgolion yn ddigon ymwybodol o anghenion rhai disgyblion, fel y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Yn ychwanegol, nid oes gan staff wybodaeth gyfoes am rai problemau yn gysylltiedig â bwlio na sut i ddelio â nhw. Mae hyn hefyd yn ganfyddiad yn adroddiad Estyn, 'Gweithredu ar Fwlio' .
- 9 Mae'r ysgolion sydd fwyaf llwyddiannus o ran gwella presenoldeb yn cydnabod bod addysgu da yn arwain at ymgysylltu'n well â disgyblion. Maent yn nodi ac yn mynd i'r afael â diffygion mewn addysgu ac yn cynnig ystod eang o ddewisiadau cwricwlwm. Maent yn darparu cymorth, arweiniad a mentora da ar gyfer disgyblion. Mae gan yr ysgolion hyn drefniadau partneriaeth effeithiol gydag asiantaethau a gwasanaethau allanol. Fodd bynnag, nid yw tua hanner yr ysgolion yn ymwybodol o wasanaethau a mentrau cymorth perthnasol, fel Teuluoedd yn Gyntaf, na sut i fanteisio arnynt. Mewn rhai ysgolion, mae'r gweithdrefnau ar gyfer manteisio ar wasanaethau yn rhy gymhleth, mae ymyriadau'n cymryd yn rhy hir i ddechrau, ac mae ysgolion yn ansicr ynglŷn â'u heffaith.
- 10 Mae gan lawer o ysgolion weithdrefnau ar gyfer neilltuo'r codau presenoldeb cywir. Fodd bynnag, mae amrywioldeb yn parhau yn y defnydd a wneir o'r codau presenoldeb. Er enghraifft, caiff 12% o absenoldebau anawdurdodedig eu categoreiddio fel "absenoldeb anawdurdodedig arall", lle na ellir defnyddio unrhyw god presenoldeb na disgrifiad. Yn benodol, mewn rhai ysgolion, mae ansicrwydd o ran cymhwyso'r cod cywir ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'n bosibl cofnodi bod disgyblion yn bresennol, hyd yn oed pan nad ydynt wedi mynychu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol mewn gwirionedd. Mae hyn yn bryder difrifol o ran diogelu, gan nad yw'r ysgolion hyn yn gwybod ble mae eu disgyblion.
- 11 Mae amrywiad sylweddol hefyd yn y modd y caiff presenoldeb disgyblion sy'n cael eu haddysgu oddi ar y safle ac nad ydynt wedi'u cofrestru'n ddeuol (cod B) a

disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n ddeuol ac yn bresennol mewn ysgol arall neu uned cyfeirio disgyblion (cod D) eu cofnodi ledled Cymru. Mewn un consortiwm, mae'r defnydd wedi'i gofnodi o god B ddeg gwaith yn uwch na chod yr awdurdod lleol sydd â'r defnydd isaf wedi'i gofnodi. Mewn consortiwm arall, mae'r defnydd o god D 22 gwaith yn uwch na chod yr awdurdod lleol sy'n cofnodi leiaf. Mae hyn yn amlygu'r ffaith fod amrywiadau sylweddol ledled Cymru ac o fewn y consortia, o ran y dulliau a ddefnyddir a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu i ffwrdd o'r ysgol.

- 12 Mae'r graddau y mae uwch reolwyr ac aelodau etholedig o awdurdodau lleol yng Nghymru yn deall a thrafod presenoldeb ar lefel gorfforaethol yn amrywio rhwng awdurdodau. Ceir enghreifftiau da lle caiff presenoldeb ei gynnwys mewn cynlluniau strategol sy'n nodi targedau ar gyfer presenoldeb.
- 13 Ceir enghreifftiau da hefyd lle mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill. Fodd bynnag, mae graddau ac effaith gweithio amlasiantaethol mewn ysgolion ledled Cymru yn rhy amrywiol. Caiff y graddau y mae dulliau amlasiantaethol yn effeithiol ei bennu gan y wybodaeth sydd gan ysgolion am y gwasanaethau hyn, parodrwydd ysgolion i ymgysylltu â nhw a gallu arweinwyr ysgolion i sicrhau bod eu hysgolion yn cael eu cynnwys mewn mentrau.
- 14 Nid yw lleiafrif o ysgolion yn deall beth y mae data presenoldeb yn ei olygu iddyn nhw. Mae angen cymorth arnynt i ddadansoddi data, nodi prif negeseuon a phennu camau priodol. Nid yw pob ysgol yn gwybod am y trefniadau yn eu hawdurdodau lleol i fynd at ddata cymharol. Mewn rhai awdurdodau, mae ansawdd y dadansoddiad data a ddarperir ar gyfer ysgolion yn amrywiol. Nid yw llawer o ysgolion yn ymwybodol o ddull eu hawdurdod lleol o wella presenoldeb ac nid yw bron pob un ohonynt yn ymwybodol o grant presenoldeb y consortia .
- 15 Mae ysgolion uwchradd sy'n cyflogi staff i wella presenoldeb grwpiau penodol o ddisgyblion yn eu defnyddio'n effeithiol ar y cyfan. Maent yn meithrin perthynas gyda theluoedd a chymunedau lleol ac yn gweithio gydag ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i wella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd hyfforddi i staff sy'n gweithio gyda theluoedd a disgyblion ag anghenion cymhleth, ac i'r rhai sy'n gweithio gyda theluoedd o wahanol gefndiroedd diwylliannol.
- 16 Nid yw rôl gwasanaethau lles addysg bob amser yn glir mewn perthynas â threfniadau consortia rhanbarthol, ac weithiau mae diffyg cydlynu rhwng gwasanaethau gwella ysgolion mewn consortia a'r gwasanaethau presenoldeb a chynhwysiant gweddilliol mewn awdurdodau lleol. Nid yw gwasanaethau gwella ysgolion yn gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth am ysgolion a'r teuluoedd sy'n cael ei chadw gan swyddogion lles addysg.
- 17 Mae datblygu Fframwaith Dadansoddi Presenoldeb Cymru Gyfan a chynnwys data presenoldeb wrth fandio ysgolion ill dau wedi bod â rhan bwysig mewn codi cyfraddau presenoldeb.

Argymhellion

Dylai ysgolion:

- A1 wneud defnydd gwell o ddata presenoldeb i lywio'u dull o wella presenoldeb disgyblion, yn enwedig y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed, fel absenoldebau parhaus, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig;
- A2 gwella'r addysgu a'r cwricwlwm a gynigir i ymgysylltu â disgyblion i'r eithaf ac archwilio dulliau fel arfer adferol, canolfannau cymorth i ddisgyblion, mentora cyfoedion a grwpiau anogaeth;
- A3 cryfhau'r cysylltiadau gydag asiantaethau neu wasanaethau allanol sy'n cynorthwyo ag ymgysylltu â theuluoedd a'u cefnogi;
- A4 ymgysylltu'n fwy â disgyblion mewn datblygu'r polisi neu'r strategaeth presenoldeb, er enghraifft trwy gynghorau ysgolion;
- A5 sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant cyfoes ar faterion fel bwlio ac anghenion grwpiau sy'n agored i niwed;
- A6 cydymffurfio â'r rheoliadau cofrestru disgyblion wrth gofnodi'n gywir bresenoldeb disgyblion sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol ac wrth dynnu disgyblion oddi ar gofrestr yr ysgol; a
- A7 sicrhau bod mentrau i wella presenoldeb yn cael eu harfarnu'n drylwyr.

Dylai awdurdodau lleol:

- A8 rhoi hyfforddiant i ysgolion ar ddeall a dadansoddi data presenoldeb ac arweiniad clir ar ddefnyddio codau presenoldeb yn gywir;
- A9 dadansoddi patrymau presenoldeb i lywio strategaeth gorfforaethol i wella presenoldeb disgyblion, yn enwedig y rhai o grwpiau sy'n agored i niwed;
- A10 ymchwilio i, a herio'r amrywiad o ran defnyddio codau presenoldeb;
- A11 gwella gwybodaeth ysgolion am flaenoriaethau, mentrau a grantiau cenedlaethol perthnasol;
- A12 nodi a rhannu arfer enghreifftiol o fewn ffiniau'r consortia a'r tu hwnt; a
- A13 sicrhau bod gwasanaethau gwella ysgolion yn ymwybodol o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw gan wasanaethau lles addysg, ac yn ei defnyddio.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A14 egluro'r cyfrifoldeb am bresenoldeb o fewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol; ac
- A15 fel rhan o'r fframwaith dadansoddi presenoldeb, parhau i ddarparu a chyhoeddi dadansoddiadau cynhwysfawr o ddata presenoldeb ar gyfer awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd – Hydref 2014

Prif ganfyddiadau

- 1 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, caiff ystafelloedd dosbarth eu harsylwi am ystod eang o resymau. Yn benodol, mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol i arweinwyr ysgol am ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu hysgol ac mae'n offeryn rheoli pwysig. Pan fydd arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol o ran gwella addysgu a dysgu, caiff ei gyfuno â gweithgareddau eraill, fel craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr, i roi darlun cyflawn o addysgu a dysgu yn hytrach na chipolwg ar wers benodol.
- 2 Pan fydd arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol, mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gweld arsylwi ystafelloedd dosbarth yn hawl broffesiynol ac yn rhan annatod o waith tîm effeithiol. Mae staff yn awyddus i rannu arfer a chefnogi dysgu proffesiynol ei gilydd. Mae hyn yn digwydd pan fydd arweinwyr:
 - yn cyfleu gweledigaeth strategol glir ar gyfer cyflawni safonau uchel ac ar gyfer ansawdd yr addysgu a'r dysgu y maent yn dymuno'i gyflawni;
 - yn eglur ynghylch dibenion arsylwi ystafelloedd dosbarth mewn polisïau ysgol;
 - yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff sy'n deillio o arsylwi ystafelloedd dosbarth a chyswllt â blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion datblygu unigolion;
 - yn sensitif i bryderon staff a materion yn ymwneud ag ymreolaeth broffesiynol;
 - yn dosbarthu rolau arwain fel bod cyfrifoldebau'n cael eu rhannu a'u deall ar draws yr ysgol;
 - yn diweddarau eu dysgu proffesiynol eu hunain yn rheolaidd; ac
 - yn recriwtio staff sy'n rhannu ethos a nodau'r ysgol ac yn meddu ar gydbwysedd o ran medrau a phrofiad.
- 3 Yn ymarferol, mae arsylwi ystafelloedd dosbarth yn fwyaf effeithiol:
 - pan fydd gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o ddibenion unrhyw arsylwi ac yn gwybod pryd y bydd yr arsylwi'n digwydd;
 - pan fydd yr athro a'r arsyllwr yn cael amser cyn yr arsylwi i drafod ffocws yr arsylwi a rhannu gwybodaeth berthnasol am y dosbarth;
 - pan fydd arsylwadau addysgu yn canolbwyntio'n glir ar y graddau y mae'n helpu

disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd da, ac ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion;

- pan fydd arsylwadau addysgu a dysgu yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth sy'n cynnwys mwy nag un ymweliad ag ystafell ddosbarth, cynllunio, cofnodion asesu, craffu ar waith disgyblion, a gwrando ar ddysgwyr;
- pan fydd arsyllwyr yn defnyddio ffurflenni sy'n addas ar gyfer cofnodi canfyddiadau'r arsylwi;
- pan fydd yr aelod o staff sy'n cael ei arsylwi yn cael cyfle i gael adborth a chymryd rhan mewn deialog broffesiynol cyn gynted ag y bo modd;
- pan fydd arsylwadau fel arfer yn para rhwng tri deg a chwe deg munud;
- pan fydd arsyllwyr yn sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o'r arsylwi;
- pan fydd yr holl arsylwadau y mae angen barnau ar eu cyfer yn cael eu safoni i sicrhau cysondeb;
- pan fydd arsyllwyr yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio disgrifwyr barn yn gywir a chyson i sicrhau cydraddoldeb a thegwch;
- pan fydd cylch hunanarfarnu blynyddol yn cynnwys arsylwadau rheoli perfformiad wedi'u hamserlennu ac arsylwadau i fonitro cynnydd yr ysgol yn erbyn targedau yng nghynllun gwella'r ysgol; a
- pan fydd yr ysgol yn ystyried arsylwadau ystafell ddosbarth ffurfiol wrth adolygu targedau gwella.

Argymhellion

Dylai arweinwyr ysgol:

- A1 sefydlu diwylliant ar y cyd o wella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol fel bod pob un o'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau;
- A2 sefydlu arferion hunanarfarnu sy'n ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys arsylwadau ystafelloedd dosbarth sy'n canolbwyntio'n bennaf ar safonau cyflawniad disgyblion ac ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- A3 datblygu polisïau ac arferion clir ac eglur ar gyfer arsylwi ystafelloedd dosbarth, y mae pob un o'r staff yn eu deall a'u cymhwyso;
- A4 cynnal deialog broffesiynol gydag athrawon a staff cymorth yn fuan ar ôl arsylwi ystafell ddosbarth;
- A5 trefnu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer staff, wedi'u seilio ar dystiolaeth sy'n cynnwys arsylwadau ystafell ddosbarth, sy'n cyfateb i flaenoriaethau'r ysgol

a blaenoriaethau unigol;

A6 ar gyfer arsylwadau ystafell ddosbarth y mae angen barnau ar eu cyfer, datblygu disgrifwyr barn a gweithdrefnau safoni i sicrhau cysondeb; a

A7 hyfforddi fel arolygwyr cymheiriaid er mwyn gallu alinio a rhannu eu harfer ag arfer rhai eraill fel arolygwyr.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia:

A8 helpu ysgolion sydd â diwylliannau cryf o ran gwella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol ac arsylwi ystafelloedd dosbarth i rannu eu harfer ag ysgolion eraill.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A9 roi cyfleoedd i ysgolion sydd â diwylliannau cryf o ran gwella, hunanarfarnu a dysgu proffesiynol ac arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol rannu eu harfer ar wefan Dysgu Cymru.

Rhifedd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3: adroddiad interim – Tachwedd 2014

Prif ganfyddiadau

- 1 Mewn ychydig o dan hanner yr ysgolion cynradd ac uwchradd a gafodd eu harolygu yn 2013-2014, mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd da neu well. Yn yr ysgolion eraill, cymedrol ar y gorau yw medrau rhifiadol disgyblion. Y rheswm am hyn yw mai dim ond rhyw hanner yr ysgolion sydd wedi datblygu darpariaeth addas ar gyfer rhifedd, er bod hyn yn gynnydd ar yr arolwg gwaelodlin.
- 2 Mae'r ysgolion yn yr arolwg wedi gwneud cynnydd o ran datblygu'u darpariaeth rhifedd ers yr arolwg gwaelodlin. Mae hyn yn dechrau cael effaith ar safonau disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gan mwyaf, mae disgyblion yn yr ysgolion hyn yn dangos gafael cadarn ar fedrau mathemategol sylfaenol. Mae hyn yn welliant o'r arolwg gwaelodlin fel y'i mesurwyd yn erbyn yr argymhelliad cyntaf (A1). Yn benodol, mae cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi helpu'r ysgolion i gynllunio'n fwy effeithiol, ac mae athrawon yn dechrau cynllunio gweithgareddau o ansawdd gwell i gefnogi ac ehangu medrau llythrennedd disgyblion (A3 ac A4). Mae safonau ac ansawdd yr addysgu yn uwch, ac mae arweinyddiaeth ar draws yr ysgolion wedi gwella hefyd, er o ychydig. Ar y cyfan, mae mwy o ffocws ar wella rhifedd. Mae athrawon wedi cael hyfforddiant o ansawdd gwell, ac mae hynny wedi datblygu'u medrau rhifiadol ac wedi arwain at gynllunio gwell a methodoleg rifiadol gyson ar draws yr ysgolion hyn (A2 ac A7).
- 3 Er eu bod wedi gwneud cynnydd ers yr arolwg gwaelodlin, mae llawer i'r ysgolion hyn i'w wneud eto, cyn bod llawer o'r strategaethau yn cael effaith gyson ar safonau. Yn benodol, mae ysgolion wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran:
 - asesu ac olrhain medrau rhifedd disgyblion (A5);
 - gwella parhad a dilyniant y profiad i ddisgyblion rhwng ysgolion cynradd a rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd (A7); a
 - monitro ac arfarnu ansawdd safonau rhifedd a darpariaeth mewn ysgolion (A8).
- 4 Ym mwyafrif yr ysgolion yn yr arolwg, mae disgyblion yn dangos medrau rhifedd sicr ac, yn gyffredinol, gallant eu trosglwyddo ar draws y cwricwlwm a'u defnyddio i ddadansoddi data a datrys problemau. Mae gan fwyafrif y disgyblion yn yr arolwg ddealltwriaeth briodol o dablau llusoi, pedair rheol rhif, gwerth lle a ffraciynau. Fodd bynnag, mae gormod o ddisgyblion o hyd nad yw'r hyder ganddynt wrth rannu a defnyddio canrannau. Mae'r diffygion hyn yn rhwystro gallu disgyblion i ddehongli canlyniadau a datrys problemau.
- 5 Nid yw medrau rhesymu rhifiadol disgyblion yn ddigon cadarn o hyd. Mae gormod o ddisgyblion yn anghyfarwydd â gweithdrefnau datrys problemau, fel nodi, casglu, trefnu, cyfrifo, dehongli a gwerthuso. Mae llawer o ddisgyblion yn camddeall achos

ac effaith ac nid ydynt yn gwirio'u hatebion o ran rhesymoldeb neu gywirdeb, neu i nodi camgymeriadau gwirion.

- 6 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae cynllunio'r athrawon ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn well yn gyffredinol nag yr adroddwyd yn yr arolwg gwaelodlin, ac o gymharu â hynny a welwyd mewn ysgolion a arolygwyd drwy'r cylch arolygu rheolaidd. Yn rhyw hanner yr ysgolion, fodd bynnag, mae'r cynllunio yn parhau'n arwynebol, a dim ond ychydig o ysgolion sy'n gwneud digon i herio disgyblion mwy abl. Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn wannach nag ar gyfer llythrennedd.
- 7 Ym mhob un o'r ysgolion bron, mae cynllunio a datblygu rhesymu rhifiadol yn orchwyl anoddach na chynllunio ar gyfer defnyddio medrau mathemategol ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ond yn megis dechrau nodi a defnyddio tasgau sy'n addas ar gyfer datblygu medrau rhesymu disgyblion, sef cynllunio, cyfleu ac adolygu. Mae hyn yn wir mewn gwersi mathemateg ac mewn pynciau ar draws y cwricwlwm fel ei gilydd.
- 8 Mae ansawdd yr addysgu i ddatblygu rhifedd yn dda mewn ychydig dros hanner y gwersi. Mae hyn yn welliant ar yr arolwg gwaelodlin. Yn y gwersi lle mae'r addysgu yn llai llwyddiannus, mae hyn yn aml oherwydd nad yw'r wybodaeth bynciol fathemategol gan yr athrawon i fynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd lle nad yw'r wybodaeth berthnasol gan athrawon, cynnydd cyfyngedig mae disgyblion yn ei wneud ac mewn ychydig o achosion maent yn mynd yn fwy dryslyd.
- 9 Yn gyffredinol, nid yw ansawdd marcio gwaith rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn ddigon da. Fel y nodwyd yn yr arolwg gwaelodlin, nid yw athrawon yn mynd ati'n rheolaidd i nodi camgymeriadau rhifiadol yng ngwaith disgyblion mewn pynciau heblaw am fathemateg. O gymharu â'r astudiaeth gwaelodlin, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r arfer o olrhain medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae bron pob ysgol yn mabwysiadu ymagwedd 'aros i weld' gan ddisgwyl y bydd system olrhain genedlaethol yn cael ei datblygu efallai.
- 10 Dim ond mewn lleiafrif o ysgolion y mae'r arweinyddiaeth ar gyfer rhifedd yn dda. Mae hyn yn welliant bach o gymharu â'r astudiaeth gwaelodlin. Yn yr ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth ar gyfer rhifedd gryfaf, mae strategaethau i ddatblygu rhifedd yn nodwedd gadarn o gynlluniau datblygu'r ysgol ac mae'r arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn dyrannu amser, hyfforddiant ac adnoddau buddiol i gefnogi datblygiad rhifedd. Fodd bynnag, hyd yn oed yn yr ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn dda, mae gwella rhesymu rhifiadol disgyblion yn parhau yn faes pwysig i'w ddatblygu.
- 11 Mae gan fwyaf yr ysgolion ddulliau cytûn ar gyfer gwneud cyfrifiadau syml. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r astudiaeth gwaelodlin. Fodd bynnag, mae'r staff yn anghyson o ran y modd y maent yn rhoi'r dulliau cytûn hyn ar waith yn rhyw hanner yr ysgolion. O ganlyniad, mae diffyg hyder ymhlith gormod o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn mewn gwaith rhif sylfaenol, fel lluosï a rhannu.
- 12 Yn yr un modd â chanfyddiadau'r arolwg gwaelodlin, mae'r gwaith o fonitro medrau rhifedd disgyblion drwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith yn dal heb ei ddatblygu'n ddigonol. Mae bron pob ysgol yn methu defnyddio'r technegau hyn yn systematig i

- arfarnu darpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn rhy ddibynnol ar ddata profion, fel data'r Profion Rhifedd Cenedlaethol, cymwysterau medrau neu ganlyniadau mewn mathemateg i ddarparu mesurau procsi ar gyfer ansawdd eu darpariaeth.
- 13 Ers cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Rhaglen Cymorth Genedlaethol, mae'r amser hyfforddi y mae ysgolion yn ei neilltuo ar gyfer datblygu llythrennedd wedi cynyddu'n sylweddol. Mewn ychydig o ysgolion cynradd y gwnaed arolwg ohonynt, ac yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, mae uwch arweinwyr yn adrodd bod gwella medrau rhifiadol y staff yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn galluogi i ddarpariaeth rhifedd fod yn effeithiol ar draws yr ysgol.
- 14 Ers yr arolwg gwaelodlin, nid oes llawer o gynnydd wedi bod o ran cydweithredu rhwng ysgolion partner cynradd ac uwchradd ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3. Mae hyn yn parhau yn faes pwysig i'w wella.

Argymhellion

Mae'r argymhellion hyn yn disodli'r argymhellion o'r arolwg gwaelodlin.

Dylai ysgolion:

- A1 sicrhau bod disgyblion yn meistroli medrau rhif pwysig, fel rhannu, gwaith gyda mesurau metrig, canrannau, cymarebau a chyfrannau, mewn gwersi mathemateg;
- A2 datblygu medrau rhesymu rhifiadol disgyblion mewn gwersi mathemateg ac mewn pynciau eraill;
- A3 ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion o bob gallu ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm;
- A4 cynorthwyo staff i ehangu'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o strategaethau i ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm;
- A5 gwella asesu ac olrhain medrau rhifedd disgyblion;
- A6 cryfhau gweithdrefnau ar gyfer arfarnu darpariaeth rhifedd; a
- A7 gweithio'n agosach gydag ysgolion clwstwr i ddatblygu mwy o gysondeb mewn addysgu ac asesu medrau rhifedd disgyblion.

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A8 gynorthwyo ysgolion i helpu staff wella'u gwybodaeth, medrau a hyder wrth ddatblygu medrau rhifedd disgyblion drwy eu pynciau; a
- A9 rhannu arfer orau rhwng ysgolion.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A10ystyried datblygu system genedlaethol ar gyfer olrhain medrau rhifedd

disgyblion.

Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog – Tachwedd 2014

Prif ganfyddiadau

Astudio Cymraeg iaith gyntaf

- 1 Ar draws Cymru, mae nifer o ddisgyblion y buont yn dilyn Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd yn peidio ag astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn datblygu eu medrau yn y Gymraeg hyd eithaf eu gallu a chaiff ychydig o ddisgyblion sydd wedi astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf eu cofrestru'n amhriodol ar gyfer yr arholiad TGAU ail-iaith Cymraeg. Mae cyfran y disgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn disgyn o 19.8% yng nghyfnod allweddol 2, i 16.3% yng nghyfnod allweddol 3, ac yna i 15.3% yng nghyfnod allweddol 4.
- 2 Yn awdurdodau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin mae'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn yr awdurdodau hyn hefyd mae'r gostyngiad mwyaf yn y nifer sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r gostyngiad oddeutu un o bob pum disgybl neu fwy.

Dilyn cyrsiau eraill drwy'r Gymraeg

- 3 Dim ond mewn un o bob tair ysgol ddwyieithog y mae rhan fwyaf y disgyblion sydd yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn dilyn dau gwrs TGAU ychwanegol neu fwy drwy'r Gymraeg. Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion dwyieithog y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol neu fwy drwy'r Gymraeg.
- 4 Mae'r arolwg wedi ymweld ag ysgolion yng Nghaerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd. Awdurdodau lleol Ceredigion ac Ynys Môn sydd â'r cyfrannau isaf o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf (tua 20%) yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg. Mae tua hanner y disgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg yng Ngwynedd a Chaerfyrddin.

Safonau Cymraeg

- 5 Yn yr ysgolion dwyieithog sydd â'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yn dilyn dau gwrs TGAU ychwanegol neu fwy drwy'r Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn rhugl mewn ystod o gyd-destunau. Yn gyffredinol, y disgyblion sydd yn dilyn y mwyaf o gyrsiau TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg sydd â gallu gorau i drafod ac ysgrifennu yn y Gymraeg.
- 6 Ar y cyfan, nid oes gan ddisgyblion yr ysgolion dwyieithog sydd â chyfrannau isel yn dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg fedrau siarad ac ysgrifennu Cymraeg digon da. Mae gan leiafrif y disgyblion yn yr ysgolion hyn afael gadarn ar y Gymraeg, ond mae llawer yn defnyddio gormod o eiriau Saesneg wrth siarad ac ysgrifennu. Nid yw'r

mwyafrif yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar neu yn ysgrifenedig oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Addysgu dwyieithog

- 7 Yn y rhan fwyaf o'r gwersi dwyieithog a arsylwyd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth a'u medrau pwnc. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y disgyblion. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn cyflwyno drwy'r Gymraeg yn bennaf, gan aralleirio syniadau creiddiol neu gymhleth drwy'r Saesneg i wneud yn siwr bod pawb yn deall. Mewn lleiafrif o wersi dwyieithog, mae'r athrawon yn ailadrodd popeth drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn arafu tempo'r wers yn ddianghenraid.
- 8 Mae disgyblion yn y gwersi dwyieithog a arsylwyd yn aml yn datblygu eu dealltwriaeth bynciol yn dda wrth ddefnyddio adnoddau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r termau pwnc-benodol yn y ddwy iaith. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyfiedredd ieithyddol y disgyblion ac ar eu hyder wrth drafod ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dim ond mewn ychydig o wersi y mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau trawsieithu yn ddigon gofalus.
- 9 Mewn lleiafrif o wersi dwyieithog a arsylwyd, yn bennaf yn yr ysgolion ble mae canrannau is o ddisgyblion yn dilyn eu cyrsiau yn y Gymraeg, nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni wrth astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn ddigon uchel. Nid yw'r athrawon hyn yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn addysgol yn ddigon effeithiol, ac mae'r disgyblion yn cael y camagraff bod astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn medru andwyo eu llwyddiant academaidd. Mewn gwirionedd, mae'r disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau TGAU drwy'r Gymraeg yn cyflawni cystal os nad yn well na rhai'r sy'n dilyn y rhan fwyaf o'u cyrsiau TGAU drwy'r Saesneg.
- 10 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn canolbwyntio ar wella llythrennedd disgyblion ar draws y pynciau a astudiant ac mae polisi marcio'r ysgolion yn rhoi sylw priodol i faterion ieithyddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon nad ydynt yn dilyn y polisiâu hyn wrth gywiro gwaith disgyblion.

Arweinyddiaeth

- 11 Mae gan arweinwyr yn yr ychydig ysgolion dwyieithog sy'n sicrhau bod cyfran uchel o ddisgyblion yn astudio pynciau ychwanegol drwy'r Gymraeg, ddisgwyliadau uchel o allu disgyblion i gyflawni'n dda yn y pynciau hynny. Maent yn gosod targedau uchelgeisiol i sicrhau dilyniant ieithyddol ac yn cynllunio'n strategol i'w cyflawni. Mae gan yr ysgolion hyn berthynas agos â rhieni ac maent yn cyflwyno manteision parhau i astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn glir iddynt. Maent yn cynllunio'n ofalus i ddarparu arlwy ddeniadol a chyfoethog o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yn y Gymraeg ac yn sicrhau cyfleoedd eang i ddisgyblion ddatblygu eu medrau iaith ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd yn sicrhau bod adnoddau cyfrwng Saesneg ar gael i ddisgyblion prin eu Cymraeg
- 12 Nid yw datblygu medrau Cymraeg yn flaenoriaeth ysgol gyfan mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog yr ymwelwyd â hwy. Nid ydynt yn cynnig ystod digon eang o gyrsiau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Mae rhai athrawon yn darbwyllo

disgyblion yn amhriodol i astudio pynciau drwy'r Saesneg. Nid yw lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn cynllunio'n ddigon effeithiol er mwyn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Staffio ac adnoddau

- 13 Mae ysgolion dwyieithog yr ymwelwyd â nhw yn wynebu her i recriwtio staff sydd yn hyderus ac yn alluog i addysgu eu pwnc drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael yn yr ysgol neu ar gyrsiau sabothol yn datblygu medrau ieithyddol Cymraeg staff yn effeithiol ar y cyfan.
- 14 Mae llawer o'r ysgolion yn cynnal sesiynau hyfforddiant mewn swydd i fireinio'u strategaethau addysgu dwyieithog. Dim ond ychydig o ysgolion dwyieithog sydd wedi datblygu cysylltiadau ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer dda neu hwyluso'r broses o lunio adnoddau Cymraeg.
- 15 Mae diffygion mewn adnoddau cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae ieithwedd papurau arholiadau cyfrwng Cymraeg yn tueddu bod yn fwy cymhleth na'r papurau cyfatebol cyfrwng Saesneg ac mae hyn weithiau'n peri trafferth i ddisgyblion ddeall y cwestiynau. Ar adegau, nid yw ystyr y cwestiynau yn y Gymraeg yr un fath â'r hyn sydd yn y fersiwn Saesneg. Yn ogystal â hyn, nid yw'r defnydd o dermau pwnc-benodol Cymraeg gan fyrrddau arholi bob amser yn gyson o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'r holl adnoddau addysgu sydd yn bodoli yn yr 'Hwb'² ar gael yn Gymraeg.

Awdurdodau

- 16 Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol sydd â disgwyliaid digon uchel o ysgolion i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ac sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni targedau uchelgeisiol. Nid yw mynd i'r afael â'r diffyg dilyniant hyn yn flaenoriaeth i'r mwyafrif o awdurdodau lleol.

Argymhellion

Dylai ysgolion dwyieithog:

- A1 osod targedau i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sydd yn dal i astudio Cymraeg iaith gyntaf ac yn dilyn eu cyrsiau drwy'r Gymraeg;
- A2 ehangu'r arlwy o gymwysterau maent yn eu cynnig drwy'r Gymraeg;
- A3 esbonio manteision dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg i ddisgyblion a rhieni a sicrhau bod rhieni yn cael eu cynnwys fwy yn addysg eu plant;
- A4 cydweithio gydag ysgolion eraill i gynhyrchu adnoddau dysgu Cymraeg, ac i drafod a rhannu strategaethau addysgu dwyieithog;

² Llwyfan Dysgu i Gymru gyfan sydd wedi'i anelu at gefnogi a hybu athrawon i weithredu mewn amgylchedd digidol a rhannu eu harfer ac adnoddau digidol.

- A5 sicrhau bod datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth ysgol-gyfan a chynllunio'n fwiadus er mwyn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg;
- A6 annog athrawon ar draws y pynciau i hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn y gwersi a thu hwnt; a
- A7 sicrhau bod athrawon ar draws y pynciau yn talu sylw i gywirdeb ac ansawdd mynegiant disgyblion yn y Gymraeg.

Dylai awdurdodau lleol:

- A8 olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg; a
- A9 cynorthwyo ysgolion i drafod, datblygu a rhannu'r strategaethau addysgu dwyieithog mwyaf effeithiol.

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A10 sicrhau bod adnoddau addysgol o ansawdd uchel Cymraeg ar gael ym mhob pwnc ar yr 'Hwb';
- A11 codi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd ac o barhau i astudio pynciau drwy'r Gymraeg; a
- A12 sicrhau bod byrddau arholi yn cyhoeddi dogfennau arweiniad a chynlluniau marcio i athrawon yn y Gymraeg ac yn paratoi cwestiynau mewn ieithwedd glir yn eu papurau arholiadau cyfrwng Cymraeg.

Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith – Tachwedd 2014

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae arweiniad strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr ôl-16 wedi helpu darparwyr DOG a DYYG i wella'r modd y mae dysgwyr yn ffurfio eu cwricwlwm.
- 2 Mae darparwyr yn y ddau sector yn gwneud defnydd da o strategaethau a gweithgareddau cynnwys i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu dylanwadu ar y cwricwlwm, adnoddau a chyfleusterau. Fodd bynnag, nid yw pob darparwr DOG yn defnyddio deilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu yn ddigon da.
- 3 Mae darparwyr yn y ddau sector wedi symud yn sylweddol y tu hwnt i ddefnyddio arolygon dysgwyr fel y prif ffyrdd o gasglu a dadansoddi barnau a safbwyntiau. Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio fforymau dysgwyr, cynrychiolwyr dosbarth neu gwrs a gweithgareddau cyfoethogi i ymestyn medrau dysgwyr a helpu dysgwyr i arfarnu'r cwricwlwm. Yn bwysig i hyn yw'r ffaith bod darparwyr yn y ddau sector yn galluogi dysgwyr i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth, sy'n eu helpu i ddatblygu medrau ar gyfer dinasyddiaeth a chyfrannu at y gymuned ehangach.
- 4 Yn y ddau sector, mae darparwyr yn gwneud defnydd da o ddeilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i lywio hunanasesu a chynllunio datblygu ansawdd. Mae gan bob darparwr dulliau ffurfiol o adrodd y canlyniadau i ddysgwyr, gan roi eu barnau a'u safbwyntiau. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o ddarparwyr DOG sy'n darparu gwybodaeth i ddysgwyr am beth sydd wedi digwydd neu beth maent wedi'i newid o ganlyniad i gymryd rhan yn yr arolygon neu'r holiaduron hyn.
- 5 Mae dysgwyr yn cyflawni ystod o ddeilliannau yn sgil cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr. Mae'r deilliannau hyn yn ymwneud yn bennaf â datblygu medrau personol a chymdeithasol. Mae llawer o ddysgwyr sy'n oedolion yn gwella'u heffeithiolrwydd personol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella dysgwyr. Defnyddiant eu dysgu'n dda i wella'u gwaith a'u bywydau. Canfu arolygwyr fod dysgwyr yn y gwaith yn datblygu ystod o fedrau a gwybodaeth a oedd yn eu helpu yn eu bywydau gweithio bob dydd. Mewn DOG, mae dysgwyr hŷn yn cymryd cyfrifoldeb yn dda am drefnu eu gweithgareddau dysgu eu hunain. Fodd bynnag, ychydig o ddarparwyr sydd â systemau ffurfiol i gofnodi a chydabod y medrau a'r wybodaeth y mae dysgwyr wedi'u caffael.
- 6 Mae effaith y gwaith o gynnwys dysgwyr ar gyrhaeddiad a chymwysterau yn llai eglur. Ychydig o ddarparwyr sydd wedi gallu mesur effaith cynnwys dysgwyr ar gyfraddau llwyddo yn gywir. Canfu'r arolygwyr fod ystod o ffactorau eraill (fel

parodrwydd i ymgysylltu, hyder, gallu i gyfleu syniadau) yn cyfrannu at wella cyrhaeddiad a chymwysterau ochr yn ochr â chynnwys dysgwyr. Yn ogystal, nid yw partneriaethau a darparwyr DOG yn gwneud digon o ddefnydd o ddeilliannau gweithgareddau cynnwys dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu.

- 7 Dim ond mewn ychydig o achosion y mae partneriaethau a darparwyr DOG yn rhoi blaenoriaeth i helpu dysgwyr drefnu eu dysgu eu hunain. Mae dysgwyr yn cael ystod o fuddion o hyn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw partneriaethau a darparwyr DOG yn gwneud digon i helpu dysgwyr sefydlu eu dosbarthiadau neu'u gweithgareddau eu hunain. Nid oes seilwaith yn ei le gan y rhan fwyaf o ddarparwyr DOG awdurdodau lleol ac addysg bellach i helpu dysgwyr drefnu'u dysgu eu hunain. O ganlyniad, nid yw pob dysgwr yn cael cyfle i ddatblygu'i fedrau dinasyddiaeth neu arweinyddiaeth.
- 8 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg cenedlaethol Llais y Dysgwr Cymru yn Ionawr a Chwefror 2013. Mae'r dystiolaeth o'r gwaith hwn ac o arolygu yn dangos bod darparwyr yn dechrau gwneud defnydd o ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr yn eu prosesau hunanasesu a chynllunio gwella ansawdd. Canfu'r arolygwyr fod darparwyr yn defnyddio'r arolwg hwn ochr yn ochr â'r ystod o weithgareddau eraill cynnwys dysgwyr yr adroddwyd amdanynt uchod. Serch hynny, nid yw pob partneriaeth DOG yn defnyddio canlyniadau eu harolwg Llais y Dysgwr Cymru yn ddigon da i wella ansawdd eu darpariaeth. Nid yw pob dysgwr yn y gwaith yn gwybod am ganlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru ar lefel darparwr.
- 9 Dros dair blynedd gwaith yr arolwg hwn, canfu'r arolygwyr fod darparwyr ym mhob lleoliad ôl-16 (addysg bellach, Cymraeg i Oedolion, DOG a DYYG) yn gwneud defnydd da o strategaeth cynnwys dysgwyr Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn gallu cyfrannu at ffurfio'r ddarpariaeth a'r cwricwlwm. Mae darparwyr ym mhob lleoliad yn gweithio'n dda â dysgwr i wneud yn siŵr bod eu barnau a'u safbwyntiau yn cael effaith gadarnhaol ar:
 - ddeilliannau dysgwyr – yn enwedig medrau personol a chymdeithasol;
 - y cwricwlwm;
 - adnoddau, cyfleusterau a lleoliadau;
 - cymorth i ddysgwyr;
 - gwella ansawdd; ac
 - arwain a rheoli'r ddarpariaeth yn gyffredinol.
- 10 Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o sectorau yn defnyddio barnau a safbwyntiau dysgwyr i wella ansawdd yr addysgu a'r asesu, roedd hyn yn llai cyffredin mewn DOG.
- 11 Mae darparwyr yn y sector ôl-16 yn defnyddio dau brif fath o gynnwys i gael dysgwyr i ymgysylltu â ffurfio'u cwricwlwm:
 - cynnwys myfyriol; a
 - chynnwys gweithredol.
- 12 Canfu'r arolygwyr hefyd fod pedwar dull o gynnwys dysgwyr sy'n cael dysgwyr i ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol:

- arweinyddiaeth;
 - partneriaeth;
 - ymgynghori; a
 - hysbysu.
- 13 Nid yw'r dulliau hyn o ennyn dysgwyr i ymgysylltu yn annibynnol ar ei gilydd. Gall darparwyr ddefnyddio cymysgedd o'r gweithgareddau hyn a helpu dysgwyr i symud rhwng y dulliau gwahanol.
- 14 Mae gwahanol bwyslais gan y dulliau gwahanol. Mae'r dulliau hysbysu ac ymgynghori yn ymwneud yn bennaf â gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r dulliau partneriaeth ac arweinyddiaeth yn ymwneud mwy â dysgwyr yn datblygu'r medrau a'r cymhelliant i weithredu a threfnu eu dysgu eu hunain.

Argymhellion

Dylai darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned:

- A1 rhoi seilweithiau ffurfiol ar waith i helpu dysgwyr drefnu'u dosbarthiadau a'u gweithgareddau eu hunain yn eu cymunedau;
- A2 gynyddu'r defnydd o strategaethau a gweithgareddau cynnwys dysgwyr er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r asesu;
- A3 cynnig rhaglenni i ddysgwyr sy'n eu helpu i ddatblygu eu medrau dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth;
- A4 rhoi systemau ffurfiol ar waith i gofnodi a chydabod ystod y deilliannau personol a chymdeithasol a gyflawnir gan ddysgwyr;
- A5 gwneud defnydd cadarn o arolwg Llais y Dysgwr Cymru ar lefel partneriaeth wrth gynllunio gwella ansawdd; a
- A6 gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn gwybod am beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i ddarparu'u barnau a'u safbwyntiau, neu beth maent wedi'i newid o ganlyniad i gymryd rhan mewn arolygon neu holiaduron

Dylai darparwyr dysgu yn y gwaith:

- A7 fonitro'n fanylach effaith cymryd rhan mewn gweithgareddau cynnwys dysgwyr ar gyfer dysgwyr unigol;
- A8 gwella mynediad i weithgareddau cynnwys dysgwyr ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau gwasgaredig yn ddaearyddol; a
- A9 gwneud yn siŵr bod pob dysgwr yn gwybod beth yw canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru ar lefel darparwr.

Dylai Llywodraeth Cymru:

A10 adolygu ei strategaeth cynnwys dysgwyr i roi mwy o bwyslais ar ddatblygu medrau dinasyddiaeth a meithrin gallu dysgwyr i ymgymryd â rolau arwain a threfnu eu dysgu eu hunain.

Rhwystrau rhag prentisiaeth – Tachwedd 2014

Prif ganfyddiadau

- 1 Mae dadansoddi data ar y niferoedd sy'n ymgymryd â phrentisiaethau o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn awgrymu y gall fod tangynrychiolaeth gan y grwpiau hyn.
- 2 Yn gyffredinol, mae darparwyr yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr o grwpiau lleiafrifol a'r rheiny ag anabledau rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Maent yn mynd ati'n rheolaidd i ddadansoddi nifer a chyfran y dysgwyr hyn er mwyn nodi ble mae angen iddynt wella cynrychiolaeth o blith grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.
- 3 Mae llawer o ddarparwyr yn rhoi mesurau ar waith i gynorthwyo dysgwyr o'r grwpiau hyn ac i wella recriwtio, er enghraifft, drwy weithio'n agos ag ysgolion lleol sydd â phoblogaeth uchel o ddisgyblion duon a lleiafrifoedd ethnig.
- 4 Mae tystiolaeth gan ddarparwyr, cyflogwyr a grwpiau cymunedol yn awgrymu bod y rhwystrau sy'n atal dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheini ag anabledau rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth yn cynnwys:
 - diffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau gan rieni, cyflogwyr a dysgwyr eu hunain;
 - ychydig iawn o fodolau rôl prentisiaeth o blith y cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu grwpiau pobl anabl;
 - anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau gwaith addas, yn enwedig lle mae cyflogwyr o'r farn y bydd angen darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr;
 - gwahaniaethu go iawn neu ganfyddedig;
 - anawsterau iaith i fyfyrwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a gwahaniaethau diwylliannol;
 - diffyg manteisio ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr neu beidio â'i ddefnyddio'n llawn;
 - pryder rhieni na fydd y bobl ifanc yn gallu ymdopi o bosibl; a
 - chydlynu annigonol rhwng ysgolion, cyflogwyr, darparwyr DYYG a sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo prentisiaethau.
- 5 Yn gyson, mae mwy o ferched wedi ymgymryd â phrentisiaethau na dynion yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae stereoteipio'r rhywiau i'w weld yn gadarn o hyd o ran y mathau o brentisiaethau a ddewisir gan bobl ifanc.
- 6 Mae darparwyr yn gweithio i fynd i'r afael â materion stereoteipio'r rhywiau. Fodd bynnag, er bod ychydig o ddarparwyr yn mesur canlyniadau'r gwaith hwn, ychydig o dystiolaeth sydd i ddangos ei effaith o ran newid patrymau y rhai sy'n ymgymryd â phrentisiaethau.
- 7 Mae trefniadau da gan y mwyafrif o ddarparwyr i sicrhau parhau i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, ond nid ydynt yn gallu dangos bod hyn yn arwain at

unrhyw welliant y gellir ei fesur o ran lleihau rhwystrau neu stereoteipio.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r niferoedd sy'n ymgymryd â phrentisiaethau, dylai Llywodraeth Cymru barhau i wneud y canlynol:

- A1 defnyddio 'Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau' i dargedu hyrwyddo prentisiaethau i rieni a dysgwyr o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl, ac i fynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau;
- A2 mewn partneriaeth â darparwyr DYYG, ysgolion, grwpiau cymunedol pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, grwpiau sy'n cynrychioli pobl anabl, Gyrfa Cymu a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, comisiynu ymgyrch farchnata Cymru gyfan i gynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo prentisiaethau i grwpiau sydd ar ymylon cymdeithas ac i fynd i'r afael â stereoteipio'r rhywiau. Dylai'r gynulleidfa darged gynnwys rhieni, athrawon, dysgwyr a chyflogwyr;
- A3 gwneud yn siŵr bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt wrth dderbyn prentisiaid ag anghenion cymorth neu ddysgu penodol, gan gynnwys y rheini sydd angen cymorth arnynt i ddatblygu'r Saesneg;
- A4 adolygu'r dyraniad presennol o leoedd prentisiaeth er mwyn bodloni'r galw lleol, gan gynnwys annog sefydliadau'r sector cyhoeddus i dderbyn prentisiaid, gyda ffocws ar recriwtio o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr ag anabled; a
- A5 gweithio gyda darparwr DYYG i ddatblygu ymhellach eu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u dulliau gweithredu, gan gynnwys rhannu arfer orau.

Dylai darparwyr dysgu yn y gwaith:

- A6 weithio'n agosach ag ysgolion, cyflogwyr, arweinwyr cymunedol a sefydliadau sy'n cynrychioli dysgwyr duon a lleiafrifoedd ethnig a dysgwyr anabl er mwyn gwella ymwybyddiaeth o brentisiaethau;
- A7 gweithio'n fwy effeithiol gyda darparwyr addysg lleol ac asiantaethau eraill i wneud yn siŵr bod profiad ac adnoddau gwerthfawr yn cael eu rhannu i gynorthwyo prentisiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- A8 gweithio gydag arweinwyr cymunedol i nodi cydlynwyr cymunedol sy'n barod i gydlynu camau gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o brentisiaethau yn y cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- A9 defnyddio modelau rôl i hyrwyddo prentisiaethau yn y gymuned; a
- A10 gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i gyflwyno rhai elfennau o gymhwyster ar gyfer dysgwyr ag anabledau.